



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus i Brosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Beth sydd angen i chi ei wybod

Beth yw Ymchwiliad?

Adolygiad gan Arolygydd annibynnol yw Ymchwiliad i gynllun ffordd, ac fe'i cynhelir cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud ynghylch p'un a ddylid ei adeiladu.

Pam mae Ymchwiliad yn cael ei gynnal?

Mae Ymchwiliad yn gyfle i bobl sydd o blaid ac yn erbyn cynllun ffordd gael dweud eu dweud. Mae'n ystyried yr holl faterion pwysig, gan gynnwys:

- Yr angen am y Cynllun.
- Faint o dir y bwriedir ei gymryd.
- Effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol posibl (mewn perthynas ag amrywiaeth eang o faterion, e.e. ecoleg, archaeoleg, sŵn, effeithiau gweledol) a'r mesurau lliniaru arfaethedig.
- Y gost a'r achos busnes.
- Ymatebion ysgrifenedig gan wrthwynebwyr a chefnogwyr.
- Dewisiadau amgen a awgrymir.

Pwy yw'r Arolygydd?

- Mae'r Arolygydd yn annibynnol ac yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn agored, yn deg ac yn ddiduedd.
- Mae'n ystyried yr holl dystiolaeth ac yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru.
- Mae'n gwrando ar y rhai sydd o blaid ac yn erbyn y cynllun ac yn ystyried y pwyntiau a weir ganddynt.
- Mae'n ystyried y dewisiadau amgen a gynnigir.

Pwy yw'r Swyddog Rhaglennu?

Y Swyddog Rhaglennu sy'n trefnu'r Ymchwiliad ac mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd am gyflwyno ei farn neu ofyn cwestiynau am yr ymchwiliad. Gallwch gysylltu â hi dros y ffôn neu drwy e-bost. Ffôn: 01403 217799 Ffôn Symudol: 07483 133975 E-bost: JoannaVincent@personaassociates.co.uk

Sut y gallaf gymryd rhan?

- Gwyllo'r Ymchwiliad, gan ei fod ar agor i'r cyhoedd.
- Siarad yn yr Ymchwiliad, er mwyn sicrhau bod eich barn yn cael ei chlywed, ei chofnodi a'i hystyried.
- Gallwch awgrymu llwybr amgen a chefnogi neu wrthwynebu dewisiadau amgen eraill ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.
- Gallwch fod yn bresennol pan fydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle.

Beth sy'n Digwydd ar ôl yr Ymchwiliad?

Bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad sy'n cynnwys canfyddiadau ac argymhellion. Wedyn, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu p'un a ddylai'r cynllun fynd rhagddo. Bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru, ynghyd ag adroddiad yr Arolygydd, yn cael ei ddosbarthu i bawb a wnaeth sylwadau ar y cynigion.

Cynhelir Ymchwiliadau yn unol â 'Rheolau Priffyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994' a 'Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010'.

Mae rhagor o ganllawiau ar Ymchwiliadau i'w gweld mewn pamffled o'r enw 'Ymchwiliadau cyhoeddus i gynigion ffyrdd, yr hyn y mae angen i chi ei wybod', sydd ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, llyw.cymru, neu gan y Swyddog Rhaglennu.

Gorffennaf. Cysodwyd mewn teip 13pt.
© Hawlfraint y Goron 2016

75% wedi'i ailgylchu
recycled